

## Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Ceinwen Jones, Segrwyd Goch (Nantglyn), a hynny mor fuan ar ôl colli ei gŵr. Roedd Ceinwen yn un o'r anwylaf ac er na fu yn dda ei hiechyd ers rhai blynyddoedd, wynebodd hynny yn ddewr a di-gŵyn. Diolchwn amdani ac am ei chyfraniad fel blaenor ac aelod yng Nghapel y Waen. Cyflwynwn y plant – Eirian, Rhiannon, Helen ac Arwyn a'u teuluoedd, a ddangosodd ofal mor arbennig tuag at eu mam a'u tad, yn dyner iawn i ofal yr Arglwydd heddiw, a gweddiwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth am eu rhieni.
- Cofiwn am eraill sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn hefyd, a gweddiwn am yr un nodedd a nerth iddynt hwythau.
- Da deall fod Ceinlys M. Jones (Llansannan) wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Dymunwn wellhad buan iddi hi.
- Llongyfarchiadau i Rhian ac Anthony (Llanfair) ar enedigaeth mab bach.
- Estynnwn ein dymuniadau da i Miss W. J. Roberts (Cefn Meiriadog) fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn go oed ddydd Gwener nesaf. Diolchwn i Dduw amdani a dymunwn bob bendith iddi eto fyth i'r dyfodol.

## Ieuentid 15+

Bydd y sesiynau i'r rhai sydd ag awydd dod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n dymuno, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol yn cychwyn cyn diwedd y mis. Bydd un ohonom yn cysylltu yn y dyddiau nesaf i geisio trefnu'r noson fwyaf cyfleus i gyfarfod, felly, os nad ydych eisoes wedi rhoi eich enw, gadewch i Mair neu Rhodri wybod, os gwelwch yn dda.

## Gwaith Llafar yr Ysgol Sul

Y gwaith dysgu ar gyfer yr oedran uwchradd fydd yn cael ei gyflwyno yn yr Oedfa o Fawl ar Fehefin 30ain yn Llansannan yw yr emyn "Ysblander Brenin Nef". **Mae'r geiriau ar gyfer pob oed i'w gweld ar y daflen gan eich Arolygwr.**

## I ddod

- Cyfarfod i rieni **Ysgol Sul Saron** yn Festri'r Capel nos Lun, Mehefin 17eg.
- **Adnabod Cymdeithasol** - Taith Gerdded Hamddenol nos Fercher, Mehefin 19eg. Cychwyn ger y capel yn Henllan am 6.30.
- **Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg** ym Mangor Mehefin 20fed-22ain. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **Cyfarfod Eglwys Tanyfron** pnawn Sul, Mehefin 23ain am 3.30 yng Nghanolfan Gymunedol Clwt.
- **Diwrnod Arbennig i Flaenoriaid** yng Nghapel Tegid, Y Bala dydd Sadwrn, Mehefin 29ain. Darperir cinio gan arlwywyr, felly plis cysylltwch **erbyn Mehefin 20fed** os am fynyachu. Cysylltwch â Mair neu e-bostiwrch rhian.h@hotmail.co.uk.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 9<sup>fed</sup> Mehefin 2013

Darlleniad y Dydd

Ruth 4:13-22

(BCND tud.248 / BCN: tud.226)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Mae hi'n braf – ac anghyffredin – cael eistedd yn yr haul bore 'ma! Mae sŵn peiriannau'r silwair hyd yn oed wedi distewi fymryn. Diolch am y tywydd braf a gobeithio y cawsoc'h gynhaeaf llwyddiannus, ac eto i ddod. Hyd yn oed yng nghanol prysurdeb mae modd rhoi diolch i Dduw. Dydi o ddim yn costio dim, ond mae'n rhoi i ni olwg briodol ar ein lle. Wrth roi diolch rydan ni'n cydnabod mai oddi wrth Un mwy na ni y daw ein cynhaliaeth a'n bod ni, er ein hymdrech, ond yma dros dro ac mai ar drugaredd Duw yr ydym yn byw ac yn bod. Felly, os nad ydych yn medru dod i oedfa heddiw, beth am godi gweddi fechan o ddiolch i'r Creawdwr a chofio amdano'n dod i'n byd yn ei Fab, Iesu, i'n bugeilio a'n hachub? Dyma destun gwir ddiolch a bydded bendith Duw ar ein moliant iddo heddiw.

Cawsom dipyn o syrpreis y dydd o'r blaen wrth fynd at y cwt ieir. Yng nghysgod clos yr iâr felen roedd cyw bach melyn wedi ymddangos o rhywle! Ac mae o'n un bach ciwt ac yn cael y sylw i gyd fel y gallwch ddychmygu. Yr hyn sy'n syrpreis ydi ein bod wedi mynd â'r ceiliog i Eric y Beidiog wythnosau'n ôl, gan ei fod yn un swnllyd a herfeiddiol braidd ac yn neidio ar bawb a oedd dod acw! Ond dyma ni – cyw bach delia'n fyw a rhyfeddod yr ŵy ymhob symudiad o'i eiddo. Diolchwn i Dduw am dymor geni hefyd ac am bob bywyd newydd, er dwi'n rhyw amau mai tebyg i'w dad ydi hwn hefyd ac mae trip arall i'r Beidiog fydd yn gorfod bod eto iddo gael cartre newydd!

Yn y darlleniad heddiw cawn glo stori Ruth a Boas a Naomi. Nodyn gobeithiol sydd yma oherwydd i Obed gael ei eni, ac Obed a fyddai yn dad i Jesse ac yn daid felly i Ddafydd frenin. Llinach Crist wrth gwrs – yr addewid o Had y Wraig yn cael ei ddiogelu gan Dduw trwy'r cenedlaethau yn ei ragluniaeth ddoeth a dirgel. Er nad ydym ni yn cyfrif llinach ein teuluoedd mor bwysig erbyn hyn efallai, y mae'n bwysig i ni ystyried ein llinach ysbrydol. Ac er na welwn ni ein Tad nefol oherwydd mai ysbryd yw Duw, mi rydan ni yn cael syrpreis gwefreiddiol pan welwn ei blant yn dod, fel cywion yng nghysgod yr iâr, i ddiogelwch tragwyddol ei ras a'i gariad Ef.

*Aneurin*

## Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu  
Aneurin – ✉ [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma
- **Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2012-13. Arweinydd: Nia Evans, Llangefni.
  - **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 dan arweiniad Aneurin a Rhodri, pryd y byddwn yn cael adolygiad o'r gyfres a gafwyd ar Datguddiad.
  - **Cymanfa Ganu** yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 8.00. Arweinydd: Aled Wyn Edwards a bydd eitemau gan Gôr Meibion Colwyn. Llywydd: Mrs Eryl Sinclair, Llandyrnog. Dewch â Chaneuon Ffydd hefo chi. Fe wneir casgliad.
- Llun
- **Cwrs Rhianta** yn y Granar, Llansannan am 7.45.
  - **Christian Viewpoint** yn cyflwyno 'Hedfan gyda'r adar' – sgwrs ac arddangosfa o lyfrau, lluniau a chardiau gan Philip Snow, arlunydd adar, ysgrifennwr a chreadydd, am 7.30 yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel. £3 yn cynnwys bwffe. Croeso i ddynion a merched!
- Mercher
- Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod.
  - **Cyfarfod o Gymdeithas Chwiorydd Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Waengoleugoed am 7.00 yng nghwmni Iola Jones, Llanfihangel Glyn Myfyr fydd yn siarad am "Brofiadau Bywyd". Ceir yno hefyd stonidin Dewch a Phrynwch. Croeso i bawb.
- Gwener – Sadwrn
- **Diwrnod/Penwythnos Genod 15+** yng Ngholeg y Bala. Nos Wener: Cath Woolridge & SOW – noson o gerddoriaeth, tystiolaeth a chymdeithas. Dydd Sadwrn: Diwrnod i ymlacio, mwynhau cymdeithas ac i ddysgu am yr Iesu yng nghwmni Sarah Morris. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) / 01678 520565. Cost: £40 am y nos Wener a dydd Sadwrn fydd yn cynnwys gwely a brecwast a chinio dydd Sadwrn, neu £25 am y dydd Sadwrn yn unig fydd yn cynnwys cinio ym Mhlas yn Dref.
- Sul nesaf
- Bydd **Oedfa'r Fro ar Daith** yng Nghefn Meiriadog am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llansannan

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreged. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau
- Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf
- Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreged. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

## Cyhoeddiadau

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith **yng Nghefn Meiriadog** (SYLWCH AR Y NEWID) am 10.30 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Ni fydd oedfaon yn Llanfair ond cynhelir y Gymanfa Ganu am 8.00. Gweler y manylion o dan gyhoeddiadau'r Fro.
- Sul nesaf
- Dathlu 150 mlynedd ers agor Capel Cefn Meiriadog. Tynnir llun o'r aelodau am 1.00, a bydd Oedfa am 2.00 yng nghwmni'r Parch Hywel Meredith, Llangefni. Bydd te parti i ddilyn, cyn y bydd Oedfa'r Fro yn dod i Gefn Meiriadog am 6.00. Croeso cynnes. Bydd Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a bydd Rhodri Glyn yn arwain oedfa yno am 2.00.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma
- Bydd aelodau Capel Peniel yn mynd ar bererindod i Lasynys, Talsarnau, a bydd aelodau Capel Saron yn cyfarfod yn y Brenig am 11.30 – dewch â phicnic efo chi. Hwn fydd y trip Ysgol Sul am eleni.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma
- Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 10.00. Yn ystod yr oedfa, bydd Elenid Gwen, merch fach Gwenan a Jonathon yn cael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith **yng Nghefn Meiriadog** (SYLWCH AR Y NEWID). Yn ystod yr oedfa, bydd Siwan Elin, merch fach Delyth a Matt yn cael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.